# Y GWASANAETH ADDYSG:

# CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD

**Amser:** 8.30am – 10.30am
**Dyddiad:** 20 Ionawr 2021
**Lleoliad:** Gwahoddiad Microsoft Teams

## DRAFT AGENDA

| Cyf. | Eitem | Categori | Yn Arwain |
|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau a chroeso i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion (FfCY) | Eitem sefydlog | Cadeirydd |
| 2 | Cofnodion y cyfarfod blaenorol (25 Tachwedd 2020) a materion yn codi: | Eitem sefydlog (papurau wedi'u hatodi) | Cadeirydd |
| 3 | Strategaeth y Gyllideb 2021/22 | Gwybodaeth a Thrafodaeth (cyflwyniad) | Rob Green, Neil Hardee |
| 4 | Balansau Ysgolion - diweddariad | Gwybodaeth a Thrafodaeth | Neil Hardee, Rob Green |
| 5 | Diweddariadau:<br>• Hawliadau COVID-19<br>• Cronfa Caledi LIC | Gwybodaeth a Thrafodaeth | Neil Hardee, Rob Green |
| 6 | Unrhyw Fater Arall | Eitem sefydlog | Cadeirydd |

Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol -

17 Mawrth 2021
12 Mai 2021
7 Gorffennaf 2021

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**

# Y GYFARWYDDIAETH ADDYSG

# COFNODION CYFARFOD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION CAERDYDD

| | |
|---|---|
| **Amser:** | 8.30am – 10.30am |
| **Dyddiad:** | 20 Ionawr 2021 |
| **Lleoliad:** | Microsoft Teams |
| **Yn bresennol:** | Karen Dell'Armi - Cadeirydd (KD), Cyngh Sarah Merry, Cyngh Chris Weaver, Cyngh Joel Williams (JW), Mel Godfrey (MG), Mike Tate (MT), Rob Green (RG), Neil Hardee (NH), Angela Jardine (AJ), Andrew Skinner (AS), Nic Naish (NN), John Hayes (JH), Marc Belli (MB), Ivor Gittins (IG), Jane Marchesi (JM), Suzanne Williams (SW), Ann Griffin (AG), Jane Setchfield (JS), Mari Phillips (MP), David Harris (DH), David Silver (DS), Abigail Beacon (AB), Kevin Hart (KH), Sarah Parry (SP), Catherine Power (CP), Wayne Murphy (WM), Louise Bloom – Clerc (LB) |
| **Ymddiheuriadau:** | Ian Allwood (IA), Sara Allen (SA), Adrian Dinsmore (AD) |

| Cyf. | **Casgliadau/Camau Gweithredu** | **Pwy** |
|---|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau a chroeso** | |
| 1.1 | Croesawodd NH KD fel Cadeirydd newydd FfCY, gyda thymor o ddwy flynedd. Derbyniwyd ymddiheuriadau. | |
| 2 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi** | |
| 2.2 | Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir. | |
| 2.3 | <u>Materion yn codi</u><br><br>Cofnodion 3.1 ac 8.1: Bydd NH a RG yn mynd ar drywydd y llythyr drafft at Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r adroddiad ar gyllid ysgolion yng Nghymru (Luke Sibieta), gan gynnwys pryderon ynghylch digonolrwydd cyllid Band A a B ADY. Caiff y drafft ei ddosbarthu i'r aelodau cyn dydd Gwener 19 Chwefror i'w drafod yn yr FfCY nesaf. | NH/RG |
| 3 | **Strategaeth y Gyllideb 2021/22** | |
| 3.1 | Rhoddodd RG gyflwyniad ar strategaeth arfaethedig y gyllideb ar gyfer 2021/22 pan nodwyd:<br><br>• Gall cynnydd o £1 miliwn mewn GCLIE wrthbwyso'r gostyngiad a ragwelir.<br>• Mae'r cyfraniad effeithlonrwydd sy'n ofynnol gan Ysgolion wedi gostwng o 1.3% i 1%.<br>• Byddai Cyllidebau Ysgolion yn cynyddu gan £6.545 miliwn (2.6%) ar ôl cyfraniadau arbedion effeithlonrwydd o 1% (£2.590 miliwn).<br>• Byddai Addysg Ganolog yn cael symiau sylweddol i gefnogi ysgolion, gan gynnwys Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir a Chludiant i'r Ysgol.<br>• Cyfanswm y twf net yn fwy na £10 miliwn ar ôl arbedion | |

| | | |
|---|---|---|
| | effeithlonrwydd ar gyfer Addysg yn ei chyfanrwydd.<br>• Byddai GGYCRh a PDG yn aros ar yr un lefel gyffredinol<br>• Bydd y Cabinet yn ystyried canlyniad yr ymgynghoriad ddechrau mis Chwefror.<br>• Dim newidiadau fformiwla newydd ar gyfer 2021/22<br>• Byddai ymarferoldeb ymgynghori ar gyfer y fformiwla ariannu ysgolion ar gyfer 2022/23 yn cael ei ystyried yn 2021, yn enwedig mewn perthynas â'r broses o ddiwygio ADY sy’n agosáu.<br>• Byddai cyllidebau TGCh craidd yn parhau i gael eu cadw'n ganolog ac yn cynyddu yn unol â'r gofynion ar gyfer y Rhaglen EdTech. Mae swm y darn uchaf ar gyfer TGCh yn cael ei ystyried. | |
| | Adroddodd NH fod archwiliad o offer Clyweledol (AV) wedi dechrau mewn ysgolion, gan nodi heriau sylweddol o ran offer AV. | |
| | Daw'r contract ar gyfer cysylltedd Wi-Fi i ben ym mis Mawrth (mae 2000 o blant wedi derbyn dyfeisiau Wi-Fi hyd yma). Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda chwmnïau telathrebu ar gyfer contract newydd ar gyfer bwndeli data hollgynhwysol i blant. | |
| | Bydd TGCh yn cael ei buddsoddi ar sail strategol ar gyfer dull cyson ar draws pob ysgol. Gellid cadw 2.5% o gyllidebau dirprwyedig ysgolion i fodloni gofynion, i gynnal TGCh mewn ysgolion ac i adnewyddu seilwaith ar sail gylchol (pump i saith mlynedd). | |
| | Mewn ymateb i ymholiad gan JH, nodwyd bod y Rhaglen Dysgu Carlam (RhDC) yn ymrwymiad blwyddyn tan ddiwedd mis Awst. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ar 19 Ionawr y byddai rhagor o arian ar gyfer RhDC yn cael ei roi am gymorth gyda newidiadau mewn perthynas ag asesu, ar gyfer blynyddoedd arholiad (TGAU a Safon Uwch) mewn ysgolion uwchradd. Bydd Caerdydd yn derbyn £597,000 yn ychwanegol ar gyfer 2020/21. Anfonir dyraniadau unigol ar gyfer ysgolion uwchradd cyn gynted ag y bydd y ffigurau'n hysbys. | |
| | Mynegodd KH siom ynghylch y diffyg eglurder yn lefel ariannu'r PDG a pha flwyddyn a ddefnyddir i gyfrifo dosbarthiadau. Un o argymhellion Estyn oedd mwy o gefnogaeth i ddisgyblion sy'n agored i niwed, y rhai yr effeithiwyd arnynt yn anghymesur gan y pandemig. Mae ysgolion yn profi niferoedd cynyddol o ddisgyblion sy'n cymhwyso ar gyfer prydau ysgol am ddim. Argymhellodd y dylai'r fforwm ofyn i ffigurau disgyblion o'r flwyddyn gyfredol gael eu defnyddio ar gyfer cyfrifo grantiau yn hytrach na ffigurau'r llynedd. Nododd fod y bwlch gyda phlant sy'n agored i niwed wedi cynyddu'n sylweddol o'r cyfnod cloi cyntaf ac wedi rhagweld cynnydd tebyg ar ôl y cyfnod cloi presennol. | KD/KH |
| | Cytunodd y Cadeirydd y byddai ymateb yn cael ei lunio gan FfCY i'w anfon at Lywodraeth Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i gymryd sylw o'r cynnydd yn y niferoedd. Adleisiodd NH fod y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim wedi cynyddu i dros 14,000, a'i bod yn dal i godi. Argymhellodd gynnal ymarfer ar ddosbarthu prydau ysgol am ddim ar draws y ddinas, gan gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ategodd MG lobïo LIC, gan ddangos effeithiolrwydd y fforwm. Byddai'r oedi wrth gasglu data CYBLD yn broblemus gan ei fod yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r fformiwla | NH |

| | | |
|---|---|---|
| | ar gyfer dyraniadau. Tynnodd RG sylw at un o argymhellion Luke Sibieta sef y cysylltiad rhwng mwy o gyllid a chyrhaeddiad i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan NN ar gymorth TGCh gan drydydd parti, gofynnodd NH i ysgolion ymatal rhag sicrhau contractau TGCh y tu hwnt i fis Medi 2021. Bydd yn cyfarfod â chaffael corfforaethol yn gynnar yr wythnos nesaf i'w gyflwyno ar gyfer tendr. Penderfynwyd symud oddi wrth dîm canolog ar gyfer ysgolion cynradd ac arbennig yn y lle cyntaf, bydd ysgolion uwchradd yn cael eu trafod ar wahân. Anfonir gohebiaeth at benaethiaid uwchradd a chyrff llywodraethu a chynhelir trafodaeth mewn cynadleddau penaethiaid uwchradd.<br><br>Gofynnodd MB am eglurhad ar gyhoeddi dyfeisiau gan ysgolion, gan nodi bod rhai wedi'u dychwelyd heb fawr o ddefnydd. Ymatebodd NH y bydd cytundeb a chanllawiau pro-forma ar offer TGCh i ddisgyblion yn cael eu hailddosbarthu. Mae adborth ar ddyfeisiau i'w groesawu fel y gellir uwchraddio dyfeisiau'n briodol. Nodwyd bod mynediad at ddyfeisiau cyn y Nadolig yn isel iawn, ac mae'r defnydd yn cael ei fonitro at ddibenion rheoli. Bydd y defnydd o ddata ar gyfer mis Ionawr llawn yn cael ei ystyried ar gyfer penderfyniad sylfaenol. Os oes gan ysgol ddyfeisiau argymhellodd fod yr ysgol yn nodi teuluoedd sydd eu hangen ac yn darparu dyfeisiau i'r teuluoedd yn ôl yr angen fesul plentyn, mae 16,000 o ddyfeisiau ychwanegol wedi'u dosbarthu hyd yma.<br><br>Tynnodd DS sylw at y diffyg eglurder ar gyllido'r 6ed dosbarth sy'n achosi anawsterau wrth gynllunio cyllideb. Ategodd NH nad oedd yr ansicrwydd yn ddefnyddiol, ac argymhellodd annog eglurder yn gyflym ynghylch cyllid Ôl-16, yn llythyr y fforwm at Lywodraeth Cymru. | KD/NH/RG |
| 4 | **Balansau Ysgolion - diweddariad** | |
| 4.1 | Dosbarthwyd papur cyn y cyfarfod yn rhoi dadansoddiad o falansau'r ysgol. Adroddodd NH fod gan swyddogion RhCLl falansau ysgol amcanestynedig hyd at 31.03.2021, sy'n dangos cynnydd pellach o falansau gwarged o'r rhai ar ddiwedd blwyddyn 2019/20. Disgwylid y byddai'r gwarged yn cael ei wario'n bennaf yn ystod y flwyddyn; fodd bynnag, gyda chau ysgolion yn cronni arbedion pellach. Mae trothwyon gwarged Llywodraeth Cymru yn nodi £50,000 ar gyfer ysgolion cynradd, a £100,000 ar gyfer ysgolion uwchradd/arbennig, mae trothwy'r awdurdod lleol yn nodi 4% o'r gyllideb.<br><br>Yn ddiweddar, dyfarnwyd £435,000 o arian grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y dyfarniad cyflog athrawon i'w ddosbarthu i ysgolion. Byddai ysgolion uwchradd hefyd yn derbyn cyllid o £597,000 ar gyfer y grant DDdY ar gyfer disgyblion blwyddyn arholiadau; byddai'r rhain yn cynyddu gwargedion amcanestynedig ymhellach.<br><br>Nododd NH fod gan Lywodraeth Cymru grantiau wedi'u hail-bwrpasu i gynorthwyo ALl ac ysgolion gyda chostau COVID ychwanegol. Gyda'i gilydd hyd yma mae ysgolion wedi hawlio £1.1 miliwn o gronfa caledi COVID Llywodraeth Cymru. Anogodd ysgolion i gymryd sylw o'r alldro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol mewn perthynas â gwargedion a hawliadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru am gostau caledi. Os bydd ffigurau'n aros yr un fath ar ddiwedd y flwyddyn, byddai saith ysgol mewn diffyg a phedwar deg chwech | |

| | | |
|---|---|---|
| | ysgol dros y trothwy.<br><br>Mynegodd MB bryderon gyda'r gwargedau mawr ond anogodd yn erbyn adfachu.<br><br>Cynigiodd AJ gynllun adfer COVID, yn awgrymu y dylid dyrannu balansau gwarged ar gyfer costau fel TGCh a staffio. Byddai angen cynlluniau adfer COVID am ddwy flynedd neu fwy.<br><br>Roedd JH o'r farn bod amgylchiadau'n ddigynsail, gan ddod â llawer o argyfyngau a dylid bod yn ymwybodol bod hwn yn ddigwyddiad unigryw. Dros y deng i bymtheg mlynedd blaenorol, mae llawer o ysgolion wedi cael trafferth mantoli'r gyllideb. Mae ysgolion yn awyddus i fuddsoddi lle nad ydynt wedi gallu gwneud hynny am gyfnod sylweddol, ychydig iawn o warged fyddai'n cael ei gario i'r flwyddyn nesaf.<br><br>Ategodd y Cynghorydd Weaver safbwynt AJ, gan gytuno bod angen buddsoddi mewn rhaglen adfer, yn enwedig ar gyfer cau'r bwlch rhwng disgyblion nad ydynt wedi ymgysylltu dros y cyfnod o amser a'r rhai sydd wedi cynnal lefel eu dysgu. Byddai'r cynllun adfer yn rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru ar yr arian a gadwyd. Argymhellodd rannu cynlluniau gydag ysgolion sydd â gormod o warged ariannol.<br><br>Croesawodd NH y sylwadau a'r awgrymiadau, bydd yr ALl yn gweithio gydag ysgolion. Bydd swyddogion yn cyfarfod ag ysgolion unigol i ddatblygu cynlluniau gwariant; sicrhau bod y cynlluniau'n gysylltiedig â datblygiadau eraill sydd ar y gweill megis buddsoddi mewn TGCh i elwa o'r cynllun caffael cenedlaethol.<br><br>Croesawodd KD y trosolwg strategol, i'w gynnal mewn ffordd deg gyda chytundeb penaethiaid a chyrff llywodraethu.<br><br>Roedd RG o'r farn bod angen dull gweithredu, mae rhai ysgolion cynradd wedi cael trafferth ac mae cyllid ychwanegol wedi bod yn achubiaeth. Gofynnodd i ysgolion ystyried cyn gwneud unrhyw hawliadau caledi yn y dyfodol, y dylid amsugno costau lle y bo'n bosibl ac y byddai'n herio hawliadau lle bo hynny'n berthnasol.<br>Bydd cyngor ac arweiniad yn parhau i gael eu cynnwys yn y diweddariad COVID misol, a anfonir drwy'r e-bost at benaethiaid. | |
| 5 | **Cronfa Caledi LlC** | |
| 5.1 | Nododd RG y gellid hawlio gwariant misol o hyd, megis costau glanhau ychwanegol a chostau staffio ychwanegol, gan ailadrodd bod ysgolion yn ystyried yn gyntaf a ellir cynnwys costau o fewn eu cyllideb.<br><br>Mae chwarteri un a dau o hawliadau incwm wedi'u cyflwyno, mae chwarter tri yn cael ei goladu.<br><br>Mynegodd y farn, er bod gan ysgolion falansau mawr mewn gwarged, fod llawer o ansicrwydd ynghylch cyllid y flwyddyn nesaf. | |
| 6 | **Unrhyw Fater Arall** | |
| 6.1 | Anogodd NH aelodau FfCY i ddarparu eu hymatebion unigol i ymgynghoriad | |

| | | |
|---|---|---|
| | y Cyngor ar y gyllideb erbyn 5 Chwefror. Bydd swyddogion yn coladu'r adborth ac yn anfon at y Cadeirydd i gael ymateb gan y FfCY yn ei gyfanrwydd.<br><br>Diolchodd JH i swyddogion am eu gwaith caled yn cefnogi plant gyda'r rhaglen Ed Tech a chylchrediad dyfeisiau. Mae addysgu o bell wedi bod yn llwyddiannus iawn; rhoi cyfle gwych i ddangos sut gallai addysgu o bell fod. Adleisiodd yr Aelodau'r safbwynt hwn. | Pawb |
| 7 | **Dyddiad y cyfarfod nesaf** | |
| 7.1 | 17 Mawrth 2021. | |